

LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Cookes Explosives, Penrhyndeudraeth (1953 - 1959)

Cyfwelai: VN011 Marian Roberts

Dyddiad: 20: 01: 2014

Cyfwelydd: Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary of the interview following the Welsh text



Cadarnhaodd Marian ei henw, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni, sef 07/10/1932.

Genedigol o Benrhyndeudraeth yw Marian, wedi'i magu yn y pentref, yn yr un stryd lle mae'n byw rŵan. Aeth hi i ffwrdd i weithio am dipyn ond dychwelyd wedyn. *Baker* oedd ei thad a'i mam yn *confectioner*. Roedd ei thad yn rhedeg ei fusnes ei hunan ac roedd ei mam yn helpu gwneud y bara a'r cacennau ayyb. Adeg rhyfel oedd hi, ac roedden nhw'n cael stwff o'r *black market*, meddai.

Unig blentyn oedd hi. Doedd hi ddim yn hapus i fod yn unig blentyn, roedd hi eisiau brawd neu chwaer ond doedd ei mam ddim yn gallu cael mwy o blant. Aeth hi yn gyntaf i ysgol Penrhyn ac wedyn i'r ysgol ramadeg yn y Bermo. Gadawodd hi'r ysgol yn 15 oed, wedi cael llond bol o'r ysgol, er ei bod yn hanner meddwl mynd i'r coleg i ddysgu sut i fod yn *confectioner* fel ei mam, ond roedd hi wedi cael digon. Penderfynodd hi fod yn nyrs i blant, ond yn gyntaf aeth i i weithio mewn siop *drapers*, Macleans, ym Mhorthmadog yn 1948, am ddeg swllt yr wythnos. Yn ystod y mis cyntaf roedd hi'n dysgu sut i serfio pobl wrth y cownter. Gweithio ar gomisiwn roedd hi - am bob punt, roedd hi'n cael chwe cheiniog. Un diwrnod, gwerthodd hi ffrog, côt a het i ryw ddynes ac roedd hi'n meddwl y byddai'n cael lot o bres ond doedd hi ddim wedi bod yno am fis - un diwrnod yn llai - felly chafodd hi ddim ceiniog o gomisiwn y diwrnod hwnnw.

Wedyn aeth hi i Amwythig i edrych ar ôl plant, fel nyrs. Roedd hi wedi 'sgwennu at Dr Barnardos i ofyn am swydd gyda phlant a dywedon nhw fod 'na le yn *Shrewsbury*. Roedd hi wrth ei bodd i gael y swydd hon a doedd hi ddim yn teimlo'n nerfus iawn i symud yn gyntaf i *Shrewsbury* ac wedyn i *Chester* ar ei phen ei hun. Chafodd hi ddim hyfforddiant i wneud y swydd hon, dim ond dysgu fel roedd hi'n mynd ymlaen. Roedd hi'n gofalu am tua 30 o blant, gan gynnwys 'potio' nhw yn y bore! Bu hi am 6 mis yn Amwythig a thua 2 flynedd yng Nghaer.

Aeth i wedyn i ryw siop '*credit drapers*' am dipyn, am fwy o gyflog. Ond yn fuan ar ôl hyn, aeth ei mam yn sâl ac roedd yn rhaid iddi ddychwelyd i ofalu amdani. Galwodd Marian ei meddyg ei hun i edrych at ei mam, achos roedd hi wedi bod yn y gwely am 6 wythnos, a darganfod ei bod hi wedi cael trawiad ar y galon. Roedd ei thad wedyn mynd i'r gwaith powdwr i weithio erbyn hyn ond doedd gan Marian ddim gwaith, achos roedd hi'n gofalu am ei mam. Gwellodd ei mam, felly aeth hi i Gaernarfon i weithio am dipyn, gyda phlant eto. Roedd ei thad yn gweithio efo halen a oedd yn dod i'r ffatri mewn casgenni tin. Byddai'n agor y rheiny ar gyfer cymysgu efo'r *explosives*, ac yn labro yno hefyd.

Aeth Marian i Cookes ar ôl i'w thad ofyn i'r rheolwr am waith iddi. Doedd dim rhaid iddi gael cyfweiliad ond roedd yn rhaid iddi fynd at y meddyg er mwyn gwneud yn siŵr ei bod hi'n ddigon iach i wneud y swydd. Roedd hi tua 22 oed ar y pryd, tua 1953-4. Roedd y rhyfel wedi dod i ben ond roedd Cookes yn dal yn gwneud ffrwydron ar gyfer y pyllau glo. Doedd ei thad ddim yn y ffatri adeg y rhyfel pan oeddynt yn gwneud grenadau.

Roedd gan Marian ofn mawr mynd i'r ffatri, doedd hi ddim yn licio fo o gwbl 'gas gen i gerdded i mewn trwy'r giât', meddai. 'dros y Burma Road.' Roedd lot o dynion y pentref wedi bod yn y rhyfel ac roedden nhw'n galw'r ffordd rhwng y ffatri a'r cantîn yn 'Burma Road.' Ond, wrth edrych yn ôl, cred mai Cookes oedd y lle hapusaf roedd hi wedi gweithio ynddo erioed. Roedd cyfeillgarwch mawr yno. Gweithio yn y cantîn yr oedd hi, yn gwneud bwyd ar gyfer 'cannoedd.' Roedd pedair shift ac roedd hi'n paratoi bwyd ar gyfer tair ohonynt: 6 tan 3, 8 tan hanner awr wedi pump a shift 3 tan 11.

Roedd hi'n gweithio 8 tan 5.30. 'Don i ddim yn coginio, helpu oeddwn i, sgif . . llond o datws wedi

pario â dŵr ac on i'n pigo'r llygaid allan o'r tatws yma, dyna oedd fy job gyntaf, ac on i'n wrth fy modd gwneud hynny, achos oedden ni'n medru cael rhyw sgon fach neu banad.'

Roedd shifft deg yn dod yn gyntaf i gael cinio. Roedd y gweithwyr yn dod at *hot plate* mawr ac roedd y cogydd yn gwasanaethu. Swllt oedd pris cinio a phwddin. Roedd yn rhaid iddi olchi'r llestri wedyn a chlirio'r byrddau.

Roedd hi'n ennill tua £5 yr wythnos tan iddi hi briodi. Aeth yn rhan amser ar ôl priodi, gan adael am 4pm y prynhawn ac yn ennill £4.95. Roedd yn waith caled. "Roedd tair ohonon ni'n 'sgrwbio' y cantîn bob dydd Mercher, andros o hen stafell fawr, Jean, a fi a Megan, a bob dydd Mercher roedd Megan yn sâl, a dim ond Jean a fi yn gwneud o, ha, ha." Roedd yn galed rhoi y cadeiriau i gyd i fyny ar ben y byrddau er mwyn glanhau'r llawr, meddai.

Doedd hi ddim yn gweithio ar y penwythnosau - pum diwrnod yr wythnos. Roedd merched yn gweithio yn y cantîn yn ystod shifft hwyr hefyd, *days* oedd Marian, heb newid shifft o gwbl. Roedden nhw'n cael cinio Nadolig am ddim, felly roedd pawb a oedd yn gweithio yno yn cymryd mantais ac yn bwyta yn y cantîn adeg y cinio Nadolig - gallai fod yn 600 o bobl. Roedd y cinio Nadolig bob amser y dydd Llun cyn y Nadolig ac roedd rhaid i ferched y cantîn weithio'r trwy'r dydd ar y Sul cynt.

Roedd pawb yn ffrindiau mawr, meddai, menywod a dynion. Roedd gan Marian berthnasau yn gweithio yno, ar wahân i'w thad, - cyfnitheroedd a chefnodyd, a chafodd un cefnder ei ladd yno. Doedd damweiniau ddim yn digwydd yn aml, ond gallen nhw fod yn farwol pan oedden nhw'n ddigwydd, roedd yn ofnadwy. Adroddodd Marian hanes un ddamwain a digwyddodd yn 1957. Roedd hi newydd briodi, yn y mis Awst, ar ôl gwyliau haf. Roedd hi'n mynd i'r gwaith ar gefn beic ryw fore am chwarter i wyth i gwrdd â thair merch, yn mynd i'r gwaith, ym mysg y llwyth a oedd yn cerdded ar hyd y stryd ar gyfer shifft. Roedd rhaid iddi hi frecio'n sydyn er mwyn osgoi un o'r gweithwyr, Nanni. 'O, wyt ti'n iawn, Nanni, wyt ti wedi brifo?' 'Na, dw i'n iawn.' Aeth Marian yn ei blaen i'r gwaith, stopio i ddweud bore da i'r nyrsys, ac roedd un ohonyn nhw'n crïo, yn ddigalon heb wybod pam. Seiniodd yr hwter a dywedodd Marian ei bod hi'n gorfod mynd i fyny i'r cantîn, neu byddai hi'n hwyr a byddai Mrs Williams, y rheolwraig, yn grac. Roedd hi'n newydd gyrraedd yn y cantîn pan ddigwyddodd y ffrwydrad:

"On i wrth y crwc, a dyma 'na glec, a dyma'r crwc, a'r gadair 'ma, yn llithran ar hyd y cantîn fel 'na, a dim dropyn o ddŵr yn disgyn ohoni, ond mi ath, 'te, oedd o'n drwm, doedd. A dyma ni i gyd yn rhedeg am y ffenestr, a Mrs Williams yn gweiddi "Peidiwch â mynd i'r ffenestri, mae'n beryg gwydrau". . . Cafodd pedwar eu lladd y diwrnod hwnnw, yn y cwt 'na."

Gwelodd hi'r nyrs a oedd wedi bod yn crïo, yn rhedeg i mewn i'r mwg melyn mawr. Cafodd pedwar o weithwyr ifanc eu lladd, 3 merch ac un dyn, ac roedd Nanni yn eu plith, a hefyd merch efo mab bach. Daeth pawb i'r cantîn ac roedd Marian yn gwneud te i ferched y 'dets' (*detonators*). Roedd y rhan fwyaf yn ifanc ac roedd lot wedi llewygu. Daeth dyn o'r offis a gweiddi rhifau pawb allan i ffeindio allan pwy oedd yno, ac yn fyw, a phwy nad oedd yno ac wedi marw. Roedd genod y cantîn yno tan bump, ac roedd Marian yn teimlo'n iawn tan iddi fynd adre a gweld wyneb ei mam a daeth popeth allan, dechreuodd grïo, y sioc i gyd. Dywedodd Marian 'Dw i ddim yn mynd yno, byth eto' a'i mam yn deud, 'Does dim rhaid i ti fynd, paid â mynd.' Ond y bore wedyn, aeth hi i'r gwaith, fel pawb arall. Aeth pawb i'r angladd ym Minffordd. Dywedodd Marian eu bod nhw yn y cantîn yn ddiogel, ond bod y bobl eraill yn y cytiau mewn perygl drwy'r amser, er nad oedden nhw byth yn siarad am y peth. "Roedd o'n lle peryglus ond doeddech chi ddim ym meddwl am hynny pan oeddech chi yno."

30:00 Roedd rhai rheolau health and safety ond dim fel maen nhw heddiw. Roedd pawb bron yn ysmegu ac roedd peiriannau bach ar y wal lle roeddynt yn cael tân, achos doedden nhw ddim yn gallu mynd â matsys i mewn i'r gwaith. Yn ddiweddarach, dechreuodd y cwmni wneud '*searches*' hefyd i wneud y siŵr fod neb yn mynd â matsys i mewn efo nhw. Doedd dim hawl i fynd ag arian i mewn 'chwaith, i'r cytiau, rhag ofn *sparks*. Roedd Marian ar y til amser cinio ac yn cymryd eu harian a'i gadw fo tan iddyn nhw ddod i gael cinio.

Ai lot o bobl yn sâl o achos y gelignit hefyd, a'u gwalltiau yn mynd yn oren. Roedd nitroglycerine a oedd yn cael ei ddefnyddio yno hefyd yn effeithio ar y galon, meddai hi, trwy ei anadlu, - effeithiodd hynny ar ei chwaer yng nghyfraith. Roedd doctor yn dod i'r gwaith bron bob wythnos i roi *exam* i'r gweithwyr, ond nid i ferched y cantîn. Roedd nyrs hefyd ar bob shift. Mae'n cofio ffrwydrad yn 1939 pan oedd hi'n blentyn. Roedd hi ar y traeth yn ei nicys, achos doedd dim *swimming costume* gyda hi, ac roedd y ffrwydrad mor gryf, daeth cerrig yn hedfan lawr ar y traeth, ac roedd hi'n gweiddi a chrïo ac yn rhedeg adre yn ei nicys, ac yn gweld pawb yn rhedeg i'r ffatri. Mae'n cofio ffrwydrad arall (neu ai dyma'r un y soniodd amdani uchod, pan gafodd y pedwar eu lladd) a gwelodd hi gaptan y *Salvation Army* ar ei ben-gliniau tu fas i'r giât, yn gweddïo.

37:00 Roedd y *bosses* yn iawn, yn gydwobodol, ond dywedodd bod y cyflog yn well pan oedd ICI yn rhedeg y lle nag oedd o dan y brodyr Cookes, ac roedd yn lle da i weithio ynddo, meddai. Roedd *supervisor* Marian yn y cantîn yn strict iawn ac mae'n cofio un adeg, roedd hi'n gwneud y tatws ar gyfer cinio'r shift gynnar, a digwydd gweld Rolls Royce ar y traeth, jeeps a llwyth o Chinese, a chamêrau. Roedden nhw'n gwneud ffilm 'Inn of the Sixth Happiness' yn yr ardal ac roedd Marian yn siŵr bod Ingrid Bergman yn y Rolls Royce. A dim ond hanner awr oedd tan amser cinio merched y cantîn, am 10.30 - tatws a grefi, ond aeth hi a'i ffrind Jean dros wal y ffatri, dros y rheilffordd, a lawr i'r traeth, yn y dŵr ac roedden nhw'n socian yn eu hoferôls yn y '*paddy fields*'. Curodd Marian ffenestr y Roll Royce du ac roedd Ingrid Bergman yn eistedd yno. Dywedodd Marian, '*Oh I'm sorry to disturb you, but could I have your autograph?*' '*Yes, certainly, have you got a pen and a piece of paper?*' Roedd gan Marian bencil ond dim papur. Roedd hi'n ysmegu bryd hynny, felly gwacaodd hi becyn o Woodbines a oedd yn ei phoced a chafodd hi'r autograph ar gefn hwnnw. Cawson nhw eu hel o 'na gan y *security* ac roedd Mrs Williams, y *supervisor*, yn y drws yn gweiddi Roedden nhw'n disgwyl cael row. "Ond heidio befo", medda fi, "dan ni wedi cael *autograph* Ingrid Bergman. Sori Mrs Williams, mae Ingrid Bergman ar y traeth", dywedodd Marian. Mae'r *autograph* ganddi o hyd. (VN0011.6).

43:00 Roedd Marian yn gwisgo oferôl gwyrdd yn y gwaith gyda rhyw fath o het 'net' ar ei phen. Doedd hi ddim yn defnyddio menig. Roedd pobl yn gweithio yn y cytiau yn gwisgo oferôl glas neu ddu o wllân tew a sgidiau pwrpasol hefyd weithiau. Dydy hi ddim yn cofio a oedd y merched yn gwisgo trowseri. Roedd 'na londri yno hefyd - job ofnadwy oedd golchi'r dillad. Roedd pawb yn tynnu eu hoferôls bob wythnos a'u gadael nhw yno i gael eu golchi, ac yn cael dillad glân, rhad ac am ddim, a merched y cantîn hefyd. Doedd dim rhaid i ferched y cantîn dalu am eu cinio 'chwaith, ond roedd yn rhaid iddynt gael eu bwyd am 10.30 yn y bore, o achos byddai'r shift chwech yn dod i mewn ar 11:00 am i ginio. Câi merched y cantîn de am 3:30 yn y prynhawn. Ai hi i'r gwaith ar gefn beic ac roedd yn rhaid iddi glocio i mewn a mas, rhif 72 oedd hi, mae'n meddwl.

Roedd undeb yno ac roedd hi'n aelod. Doedd dim rhaid i'r gweithwyr ymuno, ond roedd y rhan fwyaf yn gwneud - y merched i gyd, achos roedden nhw'n meddwl ei fod o'n beth da. Talu ar law oedden nhw i ddyn o'r enw Sam, a oedd 'ffrindiau efo pawb.' Doedd Sam ddim byd i wneud efo'r gwaith, meddai Marian, ond dydy hi ddim yn cofio'n iawn pwy oedd o yn hollol. Fu dim streic yno erioed, meddai, ac mae'r lle yn enwog am hyn. Roedd gan bobl ofn colli'u gwaith, efallai, ond mae

hi'n cofio bod pawb yn 'reit hapus yn eu gwaith, hapus yno, dw i'n meddwl, fel un teulu bach.'

Roedd y ffatri yn cau am bythefnos yn yr haf, wythnos olaf Gorffennaf ac wythnos gyntaf Awst. Byddai Marian yn 'trafeilio rownd y lle 'ma.' Roedd ei chyflog wedi codi dipyn erbyn iddi hi adael. Roedd hi'n prynu dillad allan o'i chyflog, ond roedd i wedi priodi erbyn iddi adael, ac yn gorfod talu rhent wedyn, dodrefnu'r tŷ, ayyb. Priododd hi ddyn a oedd yn gyrru *haulage* i siop Pierce ym Mhenrhyndeudraeth, ond wedyn cafodd ei gŵr swydd yn Cookes, fel gyrrwr, yn mynd a'r ffrwydron i Warrington ac i Dde Cymru. Priododd hi yn 1957, pan oedd hi'n 24, roedd ei gŵr yn 30. Roedd ICI yno erbyn hynny felly roedd y cyflog yn well.

51:00 Roedden nhw'n byw mewn tŷ a oedd wedi'i wneud o ddau fwthyn, - modern iawn - gyda thŷ bach y tu mewn, ac roedd y rhent yn uchel, 17s 6d bob wythnos, ac roedd treth y tŷ yn £7 y flwyddyn. Roedd tipyn o waith talu, meddai, a beth wnaethon oedd cymryd ymwelwyr i mewn fel gwely a brecwast amser gwyliau, ac roedd hynny'r talu'r dreth. Cafodd ei fab hynaf, Gorwel, yn 1959 a rhoddodd hi'r gwaith i fyny cyn iddo gael ei eni. Fu farw ei mam ddwy flynedd wedyn, pan oedd hi'n disgwyl ei hail fab, Dafydd. Pan oedd y plant oedran ysgol, aeth Marian i weithio fel *home help*. Er mai Cookes oedd y lle hapusaf yr oedd hi wedi gweithio ynddo, meddai, doedd hi ddim eisiau mynd yn ôl yno. Bu hi'n gweithio am sbel ym Mhort Meirion hefyd, pan oeddynt yn ffilmio *The Prisoner*, yn y 1960au.

Roedd cinio Nadolig yn Cookes, mewn hotel, - parti da, meddai. Roedd cwmni ICI yn rhoi '*safe driving award*' bob blwyddyn hefyd, ac roedd parti grêt ar gyfer hwnnw - popeth am ddim, doedd dim rhaid i'r gweithwyr dalu dim byd. Bu Marian yn gweithio am 4-5 blynedd yn y ffatri bowdwr. Roedd yn waith caled ond roedd pawb yn hapus, meddai. Dydy Marian ddim yn gwybod pa flwyddyn y newidiodd y cwmni i ICI nac a oedd hi'n gweithio yno bryd hynny.

Roedd clwb cymdeithasol i'r gweithwyr ar waelod y lon wrth y ffatri, a oedd yn cynnal *dances*, neu rywun yn canu, ac roedd bar yno. Roedd y plant yn cael parti Nadolig yno hefyd, ac anrheg hefyd. Y gweithwyr eu hunain oedd yn cynnal y clwb, ond dydy hi ddim yn cofio faint. Doedd Marian ddim yn mynd yn rheolaidd.

Mae Marian yn dal i gadw mewn cyswllt â menywod oedd yn gweithio efo nhw ac yn gweld rhai ohonyn nhw bob wythnos. Roedd pobl yn dod, nid dim ond o Benrhyn, ond o Flaenau Ffestiniog a Phorthmadog hefyd, mewn bws, 2 fws bob shift. Cymraeg oedd iaith y gweithwyr ond Saesneg oedd y *bosses*. Roedd merched y cantîn yn canu wrth eu gwaith. Mae'n cofio'r 'workers playtime' yn dod i Benrhyn adeg y rhyfel, ac roedd ei modryb yn gweithio yno'r adeg hynny, ac roedd pawb yn y lle yn canu.

Sonia eto am y Burma Road. Ar un ochr y safle roedd '*Miner's Safety*' ac ar yr ochr arall roedd 'Cookes', ac ar ôl y rhyfel cafodd ffordd newydd ei hadeiladu rhyngddynt. Roedd nifer o'r dynion wedi bod yn y rhyfel a wnaethon nhw roi'r enw 'Burma Road' i'r ffordd newydd hon. Yn y cytiau, hefyd, roedd y gweithwyr wedi galw'r lle ble roedden nhw'n cymysgu'r powdwr yn 'Klondyke', ond doedd Marian ddim yn siŵr pam.

Hyd: 1 awr

English summary

Cookes Explosives, Penrhyndeudraeth (1953 - 1959)

Interviewee: VN011 Marian Roberts

Date: 20: 01: 2014

Interviewer: Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales

Marian was born on 7th October, 1932. She was born and brought up in Penrhyndeudraeth, in the same street where she now lives. She went away to work for a while but returned to the area. Her father was a baker and her mother was a confectioner. Her father ran his own business and her mother helped make the bread and cakes, etc. During the war they would get stuff off the black market. She was an only child and would have liked a brother or sister but her mother was unable to have more children. She went to Penrhyndeudraeth school and then on to the grammar school in Bermo (Barmouth). She left when she was fifteen years old, as she'd had 'a gutsful', even though she had considered going to college to train to be a confectioner like her mother.

She decided to be a children's nurse, but first of all went to work in Macleans' draper shop in Porthmadog in 1948 for ten shillings a week. During the first month she was trained in how to serve customers at the counter. She worked on commission – for every pound she received six pence. One day she sold a dress, coat and hat to a woman and thought she'd earned a lot of money but was told that she would need to have been there for a month in order to receive her commission, so didn't get a penny. She then went to Shrewsbury to work as a children's nurse. She had written to Barnados asking for a job. She was thrilled to get this job and didn't feel nervous in the slightest about moving, initially to Shrewsbury and then later on to Chester. She received no formal training but learnt on the job. She cared for thirty children and spent six months in Shrewsbury, and two years in Chester.

She went on to work in a credit draper's for a higher salary but soon after her mother became ill and she had to return to take care of her. Marian's father had gone to work in the powder works by now, while Marian stayed at home. Her mother recovered so she found a job working with children again, this time in Caernarfon. Her father worked with salt that came to the factory in tin caskets. It was used to mix with the explosive. She went to work at Cookes after her father asked the manager if there was a job available for her there. She didn't have an interview but was given a medical to check her health. She was approximately twenty two years old at the time (circa 1953-4.) The war had ended but Cookes still made explosives for the coal industry. Marian was frightened of going to work at the factory, and dreaded walking in through the gate, over the 'Burma Road.' Many of the men from the village had been to war and had christened the way between the factory and the canteen 'Burma Road'.

In retrospect, Marian thinks that Cookes was the happiest place she'd ever worked. It was a very friendly place. She worked in the canteen, making food for hundreds of employees. There were four shifts and she prepared the food for three of them: 6 until 3, 8 until 5.30 and 3 until 11. She worked from 8 until 5.30. 'I didn't do the cooking, I helped, I was a skivvy.' Her first job was removing the eyes from a large quantity of potatoes. She was in her element because she could have a scone and a cuppa during work. The ten o'clock shift was the first one that came to have lunch. The workers would come to the hot plate and the cook would serve. Lunch and pudding cost one shilling. She

had to wash the dishes afterwards and clear the tables. She earned approximately five pounds a week until she got married. She went part-time after getting married, and would leave at 4.00pm. She earned four pounds and ninety five pence. It was hard work. "Three of us would scrub the canteen every Wednesday, it was a huge room, Jean, Megan and I. And every Wednesday Megan would be ill, and it would be just me and Jean, ha, ha." She worked a five day week, with no weekend work. Some girls worked a late shift but Marian was on days and didn't change shift. They were given a free Christmas lunch, so everybody who worked there took advantage of this and ate in the canteen on that day. There could be up to 600 of them. The Christmas lunch was always on the Monday before Christmas and the canteen girls had to work all day the previous Sunday. Everybody was friends, both men and women.

As well as her father, Marian had cousins who 6 worked there, one of whom was killed there. Accidents didn't happen often, but could be fatal when they did happen. An accident happened in August 1957, not long after she got married. She was cycling to work about a quarter to eight and met three of the girls on the way. She had to break suddenly to avoid one of them who called Nanni. She arrived at work and hadn't been there long when she heard the explosion: "Four were killed that day, in that shed." One man was killed, and three women – one of whom was Nanni and another who had a young son. Everybody came to the canteen and Marian made tea for the detonator girls. Many had fainted. A man came from the office and shouted everybody's number out to find out who was there, and alive, and who wasn't and had died. The canteen girls were there until five o'clock and Marian felt fine until she went home and told her mother. She started crying and told her mother she wouldn't be going back there but the following morning she went back, just like everybody else did. Everybody went to the funeral in Minffordd. It was dangerous for those working in the sheds.

30:00 There were some health and safety rules but not to the same extent as today. Nearly everybody smoked in those days and there were little machines on the wall to light the cigarettes as they weren't allowed to take matches in to work. Later one, the company started conducting searches to ensure nobody took matches in. They weren't allowed to take money into the sheds either, just in case they caused a spark. Marian was on the till and would look after the money for them until lunch time. Many would become ill due to the gelignite, and their hair would go orange. The nitro glycerine that was used there affected the heart. This happened to her sister-in-law. The doctor visited nearly every week to examine the workers (not the canteen girls though.) There was also a nurse on every shift. She remembers an explosion in 1969 when she was a child. She was on the beach, wearing only knickers (she didn't have a swim suit) and the explosion was so strong that debris landed on the beach. She ran home in her knickers, crying and remembers seeing everybody running from the factory. She remembers another explosion (perhaps the same one mentioned when she worked there in 1957) and saw the captain of the Salvation Army on his knees outside the gate, praying.

37:00 The bosses were conscientious but the pay was better under ICI than under Cookes. Marian's supervisor was very strict. She remembers preparing the potatoes one day and happened to see a Rolls Royce, jeeps, Chinese people and cameras on the beach. They were filming 'Inn of the Sixth Happiness' and Marian was convinced that Ingrid Bergman was in the Rolls. Her and her friend Jean jumped over the factory wall, ran over the railway, down to the beach and into the water in their overalls. She tapped the window of the Rolls Royce and saw Ingrid Bergman sitting there. She said, 'Oh I'm sorry to disturb you, but could I have your autograph?' 'Yes, certainly, have you got a pen and a piece of paper?' She had a pencil and a packet of Woodbines, which she emptied and got the autograph on that. They were sent away by security and Mrs Williams the supervisor, was shouting when they returned. She told her that Ingrid Berman was on the beach, and that she'd got

her autograph. She still has it. (VN011.6).

43:00 Marian wore green overalls and a net on her hair to work. The workers in the sheds wore blue or black overalls made from a thick woollen fabric and special shoes. There was a laundry service there. They removed their overalls at the end of the week and got them cleaned. The 7 canteen girls didn't have to pay for their lunch either but had to have it at 10.30 in the morning. They had their tea at 3:30 in the afternoon. There was a union there and she was a member. Workers weren't obliged to join but the majority did. They paid their subs to a man called Sam, who didn't actually work there. There was never a strike there. People were scared of losing their jobs but she remembers being happy there. The factory would be shut during the last week of July and the first week of August. Her wage had increased considerably by the time she left. She would buy clothes but after she married she had to pay rent, and pay for furniture, etc. Her husband got a job as a driver in Cookes, taking explosives to Warrington and South Wales. She married in 1957 when she was 24 and he was 30.

51:00 Her rent was high, so she took in tourists during the holidays on a bed and breakfast basis. She had her son in 1959 and gave up her job before he was born. She had her second son two years later, shortly after her mother died. When the children were of school age she went to work as a home help. Even though Cookes was the happiest place she'd worked in she didn't want to return. She worked at Port Meirion for a while when they were filming the Sixties series, 'The Prisoner.'

The Cookes Christmas lunch would be held in a hotel. When ICI ran the company they would give a safe driving award every year, and hold a party where everything was free. Marian worked in the powder factory for 4-5 years. It was hard work there but everybody was very happy. She can't remember in which year the company was taken over by ICI. The social club was at the bottom of the street – with dances, singers, and a bar. There would also be a Christmas party for the children. The workers themselves ran the club. Marian didn't go there often.

Marian is still in touch with former colleagues and sees some of them every week. There were people working there from Blaenau Ffestinog and Porthmadog (two buses every shift) as well as Penrhyndeudraeth. The workers were Welsh speakers but the bosses spoke English. The canteen girls sang as they worked. She remembers 'Workers Playtime' coming to Penrhyndeudraeth during the war when her auntie worked at the factory, and everybody there was singing. As well as naming the new road between Miners' Safety and Cookes 'Burma Road', the workers christened the place where they mixed the powder in the sheds 'Klondyke'.

Duration: 1 hour